Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA(L)/HL/0001/16

Ann Jones AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

19 Ionawr 2016

Annwyl Ann,

Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (Drafft)

Diolch am y llythyrau a anfonoch atom ni, y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Gweinidog Iechyd a Gwasnaethau Cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2015 ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg . Rwyf am ddelio â'ch dau lythyr yma.

Yn gyntaf, diolch ichi am y cyfle a roesoch i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau gyflwyno tystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor mewn perthynas â gwaith craffu'r Pwyllgor ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (Drafft) *('y Bil drafft'*). Rydym o'r farn y bydd y gwaith craffu y mae'r Pwyllgor yn ei wneud ar hyn o bryd, a'r sylwadau a'r awgrymiadau yn eich dau lythyr, yn amhrisiadwy i'n hymgynghoriad ar y Bil drafft ac i unrhyw ystyriaeth a roddwn i'r Bil drafft wedyn i'w fireinio.

Daeth yr ymgynghori am y Bil drafft i ben ar 18 Rhagfyr. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n casglu ac yn ystyried yr ymatebion a ddaeth i law, tua 250 ohonynt, ynghyd â'r adborth arall a gafwyd yn sgil y digwyddiadau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r sesiynau i blant a phobl ifanc a gynhaliwyd. Rhoddir ystyriaeth ddyledus i ddau lythyr y Pwyllgor yng nghyd-destun ein dadansoddiad ehangach o'r sylwadau a ddaeth i law. Yn y cyfamser, felly, dim ond i rai o'r materion a godwyd gennych rydym wedi ymateb. Byddwn yn ystyried eich holl sylwadau yn llawnach cyn cyhoeddi ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad maes o law.
Mae'r gwaith diwygio deddfwriaethol arfaethedig o ran anghenion dysgu ychwanegol yn rhoi cyfle unigryw inni ddiwygio'r ffordd rydym yn cefnogi rhai o'r dysgwyr hynny

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
English Enquiry Line 0300 0603300
Gohebiaeth.Huw.Lewis@cymru.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sydd fwyaf agored i niwed. Mae'r diwygiadau wedi bod yn cael eu datblygu ers cryn amser, ac felly mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn gwneud y gwaith yn iawn. Mae'r diwygiadau yn rhan o raglen newid addysgol ehangach - a phob elfen yn cyfrannu at greu system addysg gynhwysol. System sy'n sicrhau'r un mynediad i bawb i'r safonau addysg uchaf; sy'n gwarchod hawliau dysgwyr i fynegi eu barn; ac sy'n cefnogi pob dysgwr yn ddiwahân i gyflawni ei botensial.

Rydym wrth ein bodd bod y Pwyllgor a'i randdeiliaid wedi dangos y fath gefnogaeth i'r egwyddorion sydd y tu ôl i'n diwygiadau ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ond rydym yn cydnabod bod yna nifer o bryderon yn parhau. Fel yr amlinellir uchod, fe wnawn wrth gwrs ystyried y pryderon hyn yng nghyd-destun yr ymgynghoriad a'r ymatebion cysylltiedig.

Fodd bynnag, rydym o'r farn bod llawer o'r materion y mynegwyd ansicrwydd yn eu cylch yn ymwneud â gweithredu'r system newydd arfaethedig, ac rydym yn hyderus y gallwn fynd i'r afael â'r rhain wrth inni ymbaratoi ar gyfer y newid. Yn benodol, caiff llawer o fanylion gweithredol y model newydd eu hamlinellu yn y Cod ADY. Mae hwn eisoes yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad ag amrywiaeth o bartneriaid allanol. O ran y materion sy'n ymwneud â chapasiti'r gweithlu ac anghenion hyfforddi, mae cysylltiad agos rhyngddynt a'n rhaglen ddiwygio ehangach. Mae elfennau o'r rhaglen honno yn cael eu datblygu a'u gweithredu ar hyn o bryd.

Mae'r llythyr hwn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r pwyntiau a godwyd gennych yn eich llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y ffordd y mae'r Bil drafft yn delio â gwaith amlasiantaeth a chydweithredu rhwng llywodraeth leol a chyrff iechyd. Mae'n ymateb yn fwy cyffredinol i'r pwyntiau a godwyd yn eich llythyr at y Gweinidog Addysg a Sgiliau, gan gydnabod yr eir i'r afael â rhai ohonynt wrth inni barhau i ddatblygu'r Cod ADY a hefyd drwy ystyried yn fanylach yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil drafft.

Rydym wedi dewis mynd ati gyda'n gilydd i ymateb i'ch pwyntiau am waith amlasiantaeth a chydweithredu am ein bod o'r farn ei bod yn bwysig bod Gweinidogion yn cydweithredu mewn perthynas â'r materion hyn yn ogystal â sefydliadau a staff rheng flaen. Yn wir, rydym o'r farn ei bod yn hollbwysig bod Gweinidogion a Llywodraeth Cymru yn gyffredinol yn gosod esiampl yn hyn o beth.

Rydym wedi grwpio ein sylwadau o dan y penawdau a ddefnyddiwyd yn eich llythyr chi at y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

Gwaith amlasiantaeth a chydweithredu rhwng llywodraeth leol ac iechyd

Caiff rhai adrannau perthnasol sy'n manylu ar fframwaith deddfwriaethol y Bil drafft mewn perthynas â gwaith amlasiantaeth eu nodi isod.

Adran 49 yw'r man cychwyn yn hyn o beth. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff iechyd ac eraill (a restrir yn adran 49(4)) gydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth a chymorth gan awdurdodau lleol mewn perthynas â swyddogaethau ADY yr awdurdodau. Bydd yn rhaid cydymffurfio â cheisiadau oni bai bod hynny'n anghydnaws â dyletswyddau'r corff ei hun neu y byddai'n cael effaith andwyol ar

gyflawni ei swyddogaethau. Os na chydymffurfir â chais, bydd yn rhaid rhoi rhesymau ysgrifenedig. At hyn, byddai rheoliadau o dan adran 49(5) yn amlinellu'r amserlenni ar gyfer cyflawni ceisiadau i gydymffurfio.

Ar ben y ddyletswydd yn adran 49, mae yna ddyletswydd newydd yn adran 14 o'r Bil drafft sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff iechyd gyflawni eu haddewid i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol lle byddant wedi cytuno i hynny. Mae hyn yn gam mawr ymlaen o gymharu â'r system bresennol. Ar hyn o bryd, nid oes gofyn i gyrff iechyd gyflawni eu haddewid i gynnig darpariaeth addysgol arbennig, hyd yn oed lle maent wedi cytuno i wneud hynny. Nid oes ymyrraeth gofal iechyd yn bod ar gyfer pob angen dysgu ychwanegol ac rydych yn nodi yn eich llythyr eich bod yn derbyn bod yn rhaid i weithwyr proffesiynol iechyd benderfynu a oes yna angen iechyd penodol. Dyma'r egwyddor sydd y tu ôl i ofyn i fwrdd iechyd gyflawni ei addewid i gynnig y ddarpariaeth y cytunwyd iddi: bydd y cytundeb yn seiliedig ar gydnabyddiaeth bod yna angen penodol y mae yna ymyrraeth gofal iechyd ar ei gyfer. Lle bo angen darpariaeth ddysgu ychwanegol, ac nad oedd honno'n ddarpariaeth yr oedd y corff iechyd wedi cytuno i'w chynnig, byddai'r awdurdod lleol o dan ddyletswydd glir i wneud hynny. Byddai'r angen a'r ddarpariaeth yn cael eu hychwanegu at y cynllun datblygu unigol.

Mae adran 48 o'r Bil drafft yn rhoi'r pŵer i gyrff iechyd gyfeirio plant sydd o dan oedran ysgol gorfodol y tybir bod ganddynt ADY i'r awdurdod lleol, lle maent yn fodlon mai dyna fyddai orau i'r plentyn. Er mai pŵer disgresiwn yw hwn, i'w arfer yng ngoleuni barn rhieni, yn ymarferol byddai disgwyliad clir i'r plentyn gael ei gyfeirio yn y mwyafrif llethol o achosion.

Yn olaf, byddai gan y Swyddog Meddygol neu Glinigol Dynodedig, y byddai gofyn i fyrddau iechyd eu penodi o dan adran 47 o'r Bil drafft, rôl allweddol i'w chwarae o ran sicrhau bod byrddau iechyd yn cyflawni'n llwyddiannus y dyletswyddau a'r pwerau uchod. Ni ddylid diystyru'r rôl hon wrth, er enghraifft, hyrwyddo gwaith amlasiantaeth a chodi proffil ADY o fewn byrddau iechyd. Rydym yn nodi nad yw'r Pwyllgor yn ddigon clir ynghylch sut y byddai'r rôl hon yn gweithio, ond rydym yn awgrymu y bydd y fersiynau o'r Cod ADY a ddatblygir yn y dyfodol yn rhoi mwy o fanylion ar y mater, ac ar lawer o'r materion eraill yn ymwneud â chydweithredu.

Serch hynny, rydym yn deall ac yn cydnabod bod yna bryderon o hyd ynghylch gwaith amlasiantaeth. Rydym hefyd yn cydnabod mor hollbwysig yw gwaith partneriaeth o'r fath, yn enwedig rhwng addysg a iechyd, os yw'r gwelliannau dan sylw i'w cyflawni. Byddwn yn ystyried gyda'n gilydd beth arall y gellid ei roi ar waith, mewn termau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol, gan gynnwys ffyrdd o ddelio ag anghytundebau rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Ymhlith opsiynau eraill, rydym am ystyried sesiynau ymgysylltu uniongyrchol â byrddau iechyd i godi ymwybyddiaeth o'r diwygiadau arfaethedig, a sefydlu grŵp therapïau i edrych ar sut y gellir gwella'r elfen hon o wasanaethau cymorth arbenigol. Bydd pryderon penodol y Pwyllgor - megis cydweithredu yn y blynyddoedd cynnar, y gallu i asesu a Tîm o Amgylch y Teulu - yn ganolog wrth inni barhau i drafod yng nghyd-destun yr ymgynghoriad.
Rydym hefyd yn cydnabod bod yna orgyffwrdd sylweddol rhwng y Bil drafft a deddfwriaeth sydd gennym eisoes, yn enwedig Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol

a Llesiant (Cymru) 2014. Mae sicrhau cydlyniant a chydnawsedd rhwng y Bil drafft a'r ddeddfwriaeth bresennol wedi bod yn ystyriaeth, a bydd hynny'n parhau.

Manteision a heriau system gymorth wedi'i graddio

Rydym yn nodi bod pryderon wedi dod i law nad oes yna system gymorth wedi'i graddio, i bob golwg. Rydym yn ystyried y bydd y Bil drafft cyfredol yn sefydlu mecanwaith sy'n caniatáu i gymorth gael ei ddarparu ar y lefel briodol. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried pob sylw a ddaw i law fel rhan o'r broses ymgynghori. Gall y Cod ADY bennu gofynion gorfodol ynghylch materion sy'n ymwneud â Chynlluniau Datblygu Unigol statudol a bydd yn delio â rhai o'r materion hyn. Mae'n bwysig nodi nad yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol yn amlinellu system gymorth wedi'i graddio. O dan y system ddeddfwriaethol bresennol, caiff dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig ('*AAA*') eu rhannu'n rheini sydd â Datganiad AAA statudol a'r rheini sydd heb gynllun statudol. Dim ond yng Nghod Ymarfer AAA y ceir y cysyniad o gymorth wedi'i raddio ar ffurf 'gweithredu gan yr ysgol' a gweithredu gan yr ysgol a mwy'.

Awn ati ymhellach i ystyried y sylwadau am yr ansicrwydd sy'n codi mewn perthynas â rhannu cyfrifoldebau rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion/sefydliadau addysg bellach, y Cydgysylltydd ADY a thempled y Cynllun Datblygu Unigol.

Mae rhan 2 y Bil drafft yn benodol yn delio â rhannu cyfrifoldebau a rhoddir mwy o fanylion yn y Cod ADY.

Caiff rôl y Cydgysylltydd ADY ei disgrifio yn adran 46. Gellir gwneud rheoliadau o dan yr adran hon hefyd yn rhoi mwy o fanylion. Bydd y Cod ADY yn darparu mwy o fanylion am y rôl.

Mae'r gwaith yn parhau ar dempled y Cynllun Datblygu Unigol, fel rhan o waith Grŵp Datblygu Cynnwys y Cod.

Datrys anghydfodau a chreu system decach a mwy tryloyw

Rydym yn nodi sylwadau'r Pwyllgor am ddatrys anghydfodau, ac rydym am eu hystyried ymhellach. Yn benodol, byddwn yn ymchwilio i sut y gellir datblygu'r Cod ADY er mwyn ei gwneud yn ofynnol mynd ati'n well i ddatrys anghytundebau a hyrwyddo hynny. Yn wir, mae hwn yn fater rydym wedi gofyn yn benodol i'r grŵp partneriaid allanol sy'n datblygu'r Cod ar hyn o bryd ei ystyried.

Rydym hefyd yn nodi argymhellion y Pwyllgor mewn perthynas â phwerau'r Tribiwnlys a byddwn yn ystyried y rhain ochr yn ochr â'r ymatebion cyffredinol i'r ymgynghoriad.

Sefydlu system 0-25

Nid ydym yn cytuno mai ysgolion yw ffocws y Bil drafft. Lle bo angen, mae yna ddarpariaeth benodol yn y Bil drafft ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar ac ôl-16. Fodd bynnag, nod y Bil drafft yw sefydlu system gydlynol barhaus ar gyfer yr ystod

cyfan ac, felly, mae llawer o'r darpariaethau yn berthnasol i bawb heb gyfeirio at grŵp oedran neu leoliad penodol. Roedd y llythyr a anfonwyd at y Pwyllgor gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar 7 Rhagfyr yn mynd i'r afael â'r pwynt hwn, gan roi mwy o fanylion.

Er gwaethaf ein safbwynt cyffredinol a amlinellir uchod, caiff pwyntiau penodol y Pwyllgor mewn perthynas â'r blynyddoedd cynnar ac ôl-16 eu hystyried, fel y bo'n briodol, ochr yn ochr â'r gwaith o adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac wrth inni ddatblygu'r Cod ADY.

Heriau trawsnewid

Rydym yn nodi'r pwyntiau y mae'r Pwyllgor yn eu codi mewn perthynas â materion capasiti, anghenion hyfforddi a chostau. Er nad yw'r rhain yn faterion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darpariaethau'r Bil eu hunain, mae'n amlwg eu bod yn hollbwysig er mwyn gweithredu'r fframwaith deddfwriaethol arfaethedig yn llwyddiannus.

Mae gwybodaeth a sgiliau'r gweithlu yn allweddol er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i ddysgwyr ag ADY. Rydym eisoes wedi cwblhau dwy astudiaeth hollbwysig er mwyn deall gofynion datblygu'r gweithlu addysg cyffredinol yn well; ac asesu capasiti gwasanaethau cymorth arbenigol wrth gefnogi dysgwyr ag AAA.

Drwy ein gwaith gydag Ysgolion Arloesi'r Fargen Newydd, rydym eisoes yn cymryd camau i alluogi ein gweithlu addysg i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas â gwahaniaethu, asesu, metawybyddiaeth ac AAA. Drwy sicrhau bod gan ein gweithlu addysg yr adnoddau angenrheidiol, a'r hyder i ddefnyddio'r adnoddau hynny, byddwn yn gwella'r cymorth sydd ar gael i bob dysgwr, nid dim ond y rheini ag AAA. Yn ogystal, rydym yn gweithio gyda'r prif randdeiliaid i wella capasiti gwasanaethau AAA arbenigol drwy wella trefniadau i gynllunio'r gweithlu a hwyluso mynediad i gymwysterau arbenigol. Bydd hyn yn galluogi gwasanaethau i ganolbwyntio'u hadnoddau yn well ar y dysgwyr hynny sydd â'r anghenion mwyaf.

Rydym hefyd wedi dechrau cyflwyno arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws pob lleoliad addysg ac rydym wedi sicrhau £300,000 y flwyddyn ariannol hon i gefnogi hyn. Mae ystod o adnoddau ar gael bellach ar wefan Dysgu Cymru. Bydd y dull hwn o gynllunio o fudd i ddysgwyr yn y tymor byr (ar unwaith) a bydd yn sylfaen hanfodol ar gyfer ein diwygiadau deddfwriaethol.

Mewn perthynas â darpariaeth y Gymraeg, rydym hefyd yn nodi'r sylwadau a ddaeth i sylw'r Pwyllgor ac a wnaed gan y Pwyllgor. Byddwn yn rhoi sylw dyledus i'r rhain wrth i'r Bil drafft a'r Cod gael eu datblygu ymhellach.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi nodi pryderon mewn perthynas â'r costau sy'n gysylltiedig â'n diwygiadau. Rydym yn cydnabod y bydd y cyfnod pontio, yn benodol, yn heriol i'r sefydliadau y bydd gofyn iddynt weithredu'r system newydd ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r broses hon yn ariannol. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried beth yw hyd a lled hyn ac fe ddywedwn fwy am becyn cymorth maes o law.

Amserlenni diwygio

Rydym yn nodi bod y Pwyllgor yn pryderu y gallai'r ymgynghoriad ar y Bil drafft gael effaith anfwriadol ar ba mor gyson y mae awdurdodau lleol wrth weithredu'r system ddeddfwriaethol bresennol. Wrth gwrs, yn ddi-os mae'r ddeddf bresennol a'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol a phartïon perthnasol eraill yn dal mewn grym. Anfonodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau lythyr i awdurdodau lleol ar ddechrau'r ymgynghoriad ar y Bil drafft i'w hatgoffa bod yn rhaid iddynt barhau i gydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol cyfredol ac mae wedi cyfleu'r neges hon yn gyson dros y misoedd diwethaf. Fodd bynnag, rydym am barhau i ymchwilio i beth arall y gallwn ei wneud er mwyn cyfleu'r neges hon.

Diolch ichi unwaith eto am eich sylwadau a'ch awgrymiadau ar y Bil drafft a'r pecyn diwygio atodol. Er mai mater i'r Llywodraeth nesaf wrth gwrs fydd cyflwyno'r ddeddfwriaeth, yn y cyfamser rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r Pwyllgor i ddatblygu cyfres o gynigion deddfwriaethol a pholisi ehangach sydd mor gadarn a chynhwysfawr â phosibl.

Yn gywir,

Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services